Disgrifiad Swydd

Teitl: Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol

Crynodeb/pwrpas: Arwain, ysgogi a datblygu tîm o Aseswyr i wella ansawdd y ddarpariaeth ar draws pob rhaglen ddysgu, gan sicrhau addysgu, dysgu ac asesu o ansawdd uchel i bob dysgwr. Cyfrifol am sicrhau bod prosesau Sicrhau Ansawdd Mewnol y cwmni yn drylwyr ac yn arwain at welliant parhaus, gwell boddhad dysgwyr a chyfraddau llwyddiant ar draws y tîm.

Adrodd i: Prif Swyddog Sicirhau Ansawdd Mewnol

Goruchwylio: N/A

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Penodol

- Cyfrifol am ysgogi a datblygu tîm o Aseswyr i sicrhau bod gan ddysgwyr brofiad dysgu cadarnhaol, bod dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflawni a goruchwylio sut mae ein haseswyr yn cynllunio, ymarfer ac adolygu.
- Cyfrifol am ddatblygu tîm o Aseswyr i wella ansawdd y ddarpariaeth ar draws pob rhaglen ddysgu.
- Cyfrifol am gydymffurfiaeth gytundebol trwy fesurau ansawdd a phrosesau archwiliadwy.
- Sicrhau disgwyliadau'r fframwaith cyfan a chynghori aseswyr ar gamau gweithredu priodol.
- Monitro ac adrodd ar berfformiad aseswyr i'r Prif Asesydd Ansawdd Mewnol a gweithio mewn partneriaeth â'r Rheolwr Perfformiad, gan gefnogi cynllunio datblygu a gweithredu cynlluniau gwella wedi'u targedu lle bo angen.
- Cefnogi sefydlu aseswyr a hyfforddiant parhaus trwy ddull hyfforddi a mentora, a gyflwynir trwy Academi Ymarferwyr Aseswyr.
- Sicrhau bod Aseswyr yn ymgysylltu â chyflogwr yn y gweithle drwy gydol y profiad dysgu.
- Cyfrifol am reoli gweithgareddau samplu a gwirio i wella dilyniant a chyflawniad dysgwyr.
- Cyfrifol am sicrhau bod pob gweithgaredd Asesydd Ansawdd Mewnol yn diwallu anghenion y dysgwyr yn barhaus, yn rhagori ar ofynion y Sefydliadau Dyfarnu, MEDR Estyn ac Itec
- Cymryd rhan mewn cylch parhaus o gyfarfodydd safoni ar gyfer Aseswyr i sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu ar draws pob sector
- Rheoli modelau cyflawni ac adnoddau eraill i ymgorffori dull cyson a safonol o gyflawni
- Sicrhau y cynhelir asesiad ail linell yn unol â pholisi a gweithdrefn Itec.

- Yn atebol am sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn cael eu gwreiddio drwy gydol y rhaglen ddysgu
- Yn atebol am sicrhau bod Aseswyr yn gwreiddio themâu trawsbynciol Diogelu/Atal, ADCDF, Cymru, yr Iaith a Diwylliant, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Iechyd a Diogelwch/Lles
- Cwblhau samplu rheolaidd o weithgarwch Aseswyr i sicrhau cysondeb ar draws y tîm
- Sicrhau bod y samplo'n cael ei gwblhau a'i drawsnewid o fewn yr amserlenni a osodwyd
- Gwybod a deall pa broffiliau sydd wedi'u cynllunio bob mis, gan gynllunio i sicrhau bod y proffiliau'n cael eu cyflawni.
- Monitro cynnydd dysgwyr yn erbyn y model cyflwyno a bod yr holl ofynion ADY yn cael eu nodi a bod addasiadau'n cael eu gweithredu.
- Cyfrifol am gwblhau adroddiadau AAA, yn glir, wedi'u hysgrifennu'n dda a chyda digon o fanylion i gefnogi a gwella perfformiad
- Cymryd rhan mewn a/neu reoli ymweliadau AAA i sicrhau bod yr amserlen ymweliadau'n cael ei dilyn, bod yr holl bortffolios y gofynnir amdanynt yn cael eu cyflwyno ac yn bodloni'r safonau gan arwain at ymweliad cadarnhaol
- Cyfrifol am reoli, cynllunio a chwblhau arsylwadau AAA o Aseswyr i sicrhau bod y strategaeth AAA yn cael ei chyflawni
- Yn gyfrifol am hyfforddi a datblygu Aseswyr gan sicrhau eu bod yn symud i sgôr RAG gwyrdd o fewn 6 mis i ddechrau.
- Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ddatblygiadau yn eu sector galwedigaethol trwy hunanastudio ac ymchwil a chadw logiau/cofnodion DPP
- Cefnogi'r Tîm Sicrhau Ansawdd trwy nodi gwelliannau i'r strategaeth IQA trwy broses adolygu i wella cyflawniad a chyfraddau llwyddiant
- Cynnal gwybodaeth a glynu wrth Safonau Proffesiynol Dysgu Seiliedig ar Waith, Cod Ymarfer y Gweithlu Addysg a Chod Ymddygiad y cwmni

Cyffredinol

- Sicrhau diogelwch asedau'r cwmni
- Cydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau'r cwmni
- Cydymffurfio â pholisi a gweithdrefn diogelu'r cwmni
- Cydymffurfio â Deddfwriaeth Cyfle Cyfartal a bod yn rhagweithiol wrth herio rhagfarn, gwahaniaethu a stereoteipio.
- Gweithredu polisïau a gweithdrefnau ansawdd y Cwmni yn llawn.
- Ymgynghori â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cwmni ynghylch eu cyfrifoldebau penodol fel y'u disgrifir yn yr adran trefniadau cyffredinol
- Ystyried eu gweithredoedd yn y gwaith o ran sut y gallent effeithio ar ddiogelwch Dysgwyr, cleientiaid ac ymwelwyr â safleoedd y Cwmni
- Cefnogi a dangos gwerthoedd craidd y sefydliad
- Meddylfryd perchnogaeth. Dangos atebolrwydd a dibynadwyedd, cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a chyflawni dangosyddion perfformiad allweddol yn amserol.
- Cydweithredu â'r holl staff i sicrhau gweithle iach a diogel ac adrodd am unrhyw risgiau a nodwyd, yn safleoedd y cwmni neu safleoedd eraill, i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch dynodedig. • Dyletswyddau eraill a allai gael eu nodi o bryd i'w gilydd gan y Cwmni. • Mynychu rhaglenni hyfforddi / datblygiad personol perthnasol

Crynodeb Personol

	Hanfodol	Dymunol
Profiad & Chymwysterau	Cymhwyster Asesydd ac IQA Cymhwysedd galwedigaethol perthnasol Profiad o ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth Trwydded yrru lawn gyda defnydd o'ch cerbyd eich hun	Experience and a proven track record of leading a team of IQAs Experience of co-ordinating EQA visits Been actively involved in an Estyn Inspection
Sgiliau	Llythrennog mewn TGch Ymrwymedig i welliant parhaus Y gallu i gyfathrebu'n dda ac yn effeithiol gyda chydweithwyr a chleientiaid Cywir gyda sylw da i fanylion ym mhob maes gwaith Rhagweithiol gyda pharodrwydd i ddysgu, helpu eraill a chymryd tasgau gan ddefnyddio'ch menter eich hun	Y gallu I siarad Cymraeg
Gwybodaeth	Gwybodaeth a dealltwriaeth Diogelu ac Atal Gwybodaeth fanwl am raglenni Prentisiaeth gan gynnwys gofynion fframwaith, prosesau Ansawdd Mewnol a dulliau asesu Gwybodaeth fanwl am ofynion Sefydliadau Dyfarnu Gwybodaeth fanwl am ofynion Arolygu Estyn	
Nodweddion	Yn grymuso eraill Yn dangos angerdd dros ddysgu Yn dangos ymrwymiad i gynhwysiant Yn meithrin twf trwy wella prosesau ac arferion yn rhagweithiol Yn hunangymhellol, yn hunangychwynnol. Yn hyblyg o ran dull. Y gallu i weithio dan bwysau Dibynadwy Brwdfrydig Chwaraewr tîm Yn addasu'n dda i newid Cael dull cydwybodol a hunanddisgyblaethol o weithio'n annibynnol Yn barod i deithio i gyflawni gofynion y rôl	